| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | **Mehefin 28 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Adroddiad Monitro Cynllun Iaith 2011-12** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod y Pwyllgor yn derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad cyn ei hanfon i Gomisiynydd y Gymraeg** |
| **AWDUR** | **Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith** |

## 1. CEFNDIR

Daeth pwerau statudol Comisiynydd y Gymraeg i rym ar 1 Ebrill 2012, ac felly dyma'r Adroddiad Monitro Iaith gyntaf i'r Cyngor gyflwyno i'r Comisiynydd, yn hytrach nag i Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Serch hyn, ac yn unol â'r cyfarwyddiadau o swyddfa'r Comisiynydd, mae'r Adroddiad yn dilyn y patrwm adrodd a osodwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n cynnwys y gofyn i adrodd yn flynyddol ar ddangosyddion penodol (Dangosyddion Iaith Gymraeg- DIG). Mae'r dangosyddion yma'n cynnwys meysydd allweddol megis gwasanaethau dwyieithog, cwynion iaith, trefniadau trydydd parti a sgiliau ieithyddol staff. Disgwylir y bydd y trefniadau adrodd yma'n newid maes o law yn sgil sefydlu'r drefn Safonau Iaith.

Mae'r Adroddiad Monitro'n seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan staff ar draws holl Wasanaethau'r Cyngor a hefyd ar faterion strategol a godd o'r Is-bwyllgor Iaith.

## 2. YR ADRODDIAD

2.1. Yn ogystal ag adrodd ar y dangosyddion a bennwyd gan Fwrdd yr iaith Gymraeg, mae'r Adroddiad hefyd yn amlinellu'r cynnydd ar brosiectau ieithyddol Gwasanaethau o fewn y Cyngor, ac yn benodol y Gwasanaethau Ieuenctid a Hamdden. Dylid nodi bod y prosiect Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden yn codi o drafodaethau a gynhaliwyd yn yr Is-Bwyllgor Iaith

2.2. Ar ddiwedd yr Adroddiad, nodir esiamplau o ymarfer da dros y cyfnod, yn ogystal â meysydd sy'n flaenoriaeth neu le na wnaethpwyd cynnydd digonol dros y cyfnod monitro.

## 3. ARGYMHELLION

3.1. Gofynnir i'r Pwyllgor am unrhyw sylwadau ac i gymeradwyo'r Adroddiad cyn ei chyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.